HSE

Health and Safety Executive

# Cais am Gofrestriad* / Trwydded Storio* *(*dileer fel y bo'n briodol)* o dan y Rheoliadau Gweithgynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005

- **Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn cwblhau'r ffurflen hon.**
- **Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon os ydych yn bwriadu storio powdr di-fwg neu unrhyw ffrwydrn sy'n gofyn am dystysgrif ffrwydron, ee powdr du, ffrwydron chwythu.**

**Manylion yr Ymgeisydd** *(os ydych yn gwneud cais ar ran cwmni* (neu, yn yr Alban yn unig, partneriaeth), rhowch ei enw)

Enw'r ymgeisydd

Dyddiad a man geni *(lle y mae'r ymgeisydd yn unigolyn)*

Cyfeiriad *(gan gynnwys cod post)*

Rhif Ffôn yn ystod y Dydd

Rhif Ffacs

E-bost

Os nad yw'r storfa yn y cyfeiriad hwn, rhowch gyfeiriad llawn (gan gynnwys cod post) y storfa

**Math o ffrwydron a gedwir** *(ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n gymwys)*

Tân gwyllt ☐ Pyrotechneg arall ☐ (gan gynnwys chwythwyr bagiau aer a rhag-dynianyddion gwregys diogelwch, fflerau, signalau mwg)

Arall *(nodwch)*

Cyfanswm maint (màs net) mewn cilogramau y ffrwydrn y bwriadwch eu storio:

Os yw'n llai na 250 cilogram *(ticiwch y blwch)* ☐ Os yw'n fwy na 250 cilogram, nodwch y maint ______ kg

A ydych yn bwriadu storio mwy na 75 cilogram (net) o ffrwydron rhyfel neu eitemau pyrotechnegol mewn adeilad sy'n cydffinio â safle domestig? *(ticiwch y blwch sy'n gymwys)* Ydw ☐ Nac ydw ☐

Mae'r cais hwn ar gyfer: *(ticiwch y blwch sy'n gymwys)*

cofrestriad neu drwydded storio newydd ☐ adnewyddu cofrestriad neu drwydded storio ☐

Os yw hyn yn gais adnewyddu, nodwch y dyddiad terfyn ac unrhyw rif cyfeirnod

**Math o ffrwydron a gedwir** *(ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n gymwys)*

A ydych wedi cael trwydded neu gofrestriad blaenorol a gafodd eu gwrthod neu eu dirymu? *(ticiwch y blwch sy'n gymwys)* Ydw ☐ Nac ydw ☐

A ydych wedi'ch dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, neu wrth werthu neu gyflenwi tân gwyllt? *(ticiwch y blwch sy'n gymwys)* Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych wedi ateb 'ydw' i unrhyw un o'r ddau gwestiwn blaenorol, rhowch ddyddiad(au) a manylion, gan gynnwys enw'r awdurdod trwyddedu a'r llys lle y'ch dyfarnwyd yn euog.

**Gwybodaeth arall i ategu'r cais hwn**

**Natur y Busnes** *(ticiwch y categori neu gategorïau sy'n gymwys i'r cais hwn)*

Tân gwyllt- manwerthu ☐ Tân gwyllt- mewnforio/cyfanwerthu ☐ Tân gwyllt- gweithredwr arddangosfeydd ☐

Defnyddiwr hamddenol ☐

Arall *(nodwch)*

A ydych yn bwriadu gwerthu tân gwyllt? *(ticiwch y blwch sy'n gymwys)* Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydw', a ydych yn bwriadu eu gwerthu yn unig adeg: *(ticiwch y blwch neu flychau sy'n gymwys isod)*

Y Flwyddyn Newydd ☐ Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ☐ Hydref 15 - Tachwedd 10 ☐ Diwali ☐

DS: Os hoffech werthu tân gwyllt y tu allan i'r cyfnodau uchod, bydd angen i chi hefyd wneud cais ar wahân am drwydded i gydymffurfio â'r Rheoliadau Tân Gwyllt 2004. Ceisiwch gyngor gan eich awdurdod trwyddedu lleol.

Os ydych yn bwriadu gwerthu tân gwyllt yn ystod unrhyw gyfnodau eraill, rhowch y dyddiadau yma.

**Gwybodaeth ychwanegol**

**Os nad yr ymgeisydd yw perchennog/rheolwr y busnes, rhowch fanylion y person sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r storfa**

Enw Cyswllt

Swydd

Cyfeiriad, gan gynnwys cod post *(os yw'n wahanol i'r uchod)*

Rhif Ffôn yn ystod y Dydd

Rhif Ffacs

E-bost

**Manylion cyswllt y tu allan i oriau** - rhowch enw a rhif ffôn, gan gynnwys ffôn symudol os yw'n briodol, y person i gysylltu ag ef mewn argyfwng

Enw

Rhif Ffôn

Rhif Ffôn Symudol

**Rhowch enw a chyfeiriad y cyswllt ar gyfer ymholiadau o ran y cais hwn os yw'n wahanol i'r ymgeisydd**

Enw Cyswllt

Cyfeiriad, gan gynnwys cod post *(os yw'n wahanol i'r uchod)*

Rhif Ffôn yn ystod y Dydd

Rhif Ffacs

E-bost

**Llofnod yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd yr ymgeisydd)**

Llofnodwyd

Dyddiad

Enw

Swydd

Sefydliad *(os yw'n gymwys)*

**Gall y wybodaeth a gesglir ar y ffurflen hon fod yn ddata personol fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Deddf 1998. Caiff unrhyw ddata personol ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf honno.**

**Noder bod darparu gwybodaeth ffug yn drosedd o dan Adran 33 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Gallai gwybodaeth anghyflawn neu wallus arwain at oedi wrth brosesu eich cais.**

**Gellir storio'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn electronig. Gellir rhannu'r wybodaeth, lle y bo'n briodol, gyda chyrff perthnasol eraill fel awdurdodau trwyddedu eraill, awdurdodau lleol, yr heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth bersonol ac i gael gwallau wedi'u cywiro.**

Dychwelwch y ffurflen hon a'r ffi am eich cofrestriad/trwydded storio i:

**Ffi:** Amgaeaf daliad ☐ *(ticiwch y blwch)* **(Os na wyddoch beth yw'r ffi, gofynnwch i'ch awdurdod trwyddedu)**

**At ddefnydd awdurdod trwyddedu**

## Arweiniad i ymgeiswyr

## Dim ond ar gyfer ffrwydron lle *nad* oes angen tystysgrif ffrwydron gan yr Heddlu ar eu cyfer y dylid defnyddio'r ffurflen hon - er enghraifft, tân gwyllt, eitemau pyrotechnegol eraill a ffrwydron arfau bach.

Cwblhewch y ffurflen gais drwy ddefnyddio inc **du** neu drwy deipio. Os nad oes digon o le i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, parhewch ar ddalen(ni) ar wahân.

Cysylltwch â'ch awdurdod trwyddedu lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau am gwblhau'r ffurflen hon neu am eich cais. Os ydych yn byw yn y siroedd metropolitanaidd, (hy Gorllewin Canolbarth Lloegr, Glannau Mersi, Manceinion Fwyaf, Tyne a Wear, De a Gorllewin Swydd Efrog) neu yn Swydd Rydychen, Cernyw neu Norfolk, bydd angen i chi wneud cais i'r gwasanaeth tân ac achub. Mewn ardaloedd eraill, fel arfer bydd angen i chi gysylltu ag adran safonau masnach eich awdurdod lleol.

**Am ba un yr ydw i'n gwneud cais, cofrestriad neu drwydded?**

Yr uchafsymiau y gellir eu storio o dan **gofrestriad** yw:

- 250 cilogram o ffrwydron arfau bach a chapiau taro.
- 250 cilogram o ffrwydron Perygl o Fath 4 (ee y rhan fwyaf o dân gwyllt defnyddwyr ac eitemau pyrotechnegol eraill).

Os ydych yn cadw unrhyw ffrwydron Perygl o Fath 3 mwy pwerus, yna mae'r symiau'n lleihau i 100 cilogram. Os ydych yn cadw unrhyw ffrwydron Perygl o Fath 1, mae'r symiau'n lleihau i 30 cilogram.

*Gofynnwch am ragor o gyngor gan eich cyflenwr os nad ydych yn sicr ynglŷn â pherygl y mathau o ffrwydron rydych am eu storio.*

Bydd angen i chi wneud cais am **drwydded** os ydych am storio mwy na'r symiau a ganiateir o dan gofrestriad. Os ydych am storio mwy na **2 dunnell fetrig** o ffrwydron, dylech wneud cais i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am drwydded (ar Ffurflen LP41, sydd ar gael o www.hse.gov.uk/forms/explosive/index.htm neu drwy ffonio 0151 951 4741).

**'Màs net'** y ffwydr on yw'r symiau y cyfeirir atynt uchod. Golyga hyn bwysau'r ffrwydryn a gynhwysir o fewn eitem (hy heb y deunydd pacio, casinau ac ati). Yn achos tân gwyllt ac eitemau pyrotechnegol eraill, tybir mai chwarter pwysau gros yr eitem yw hyn - oni bai bod gennych wybodaeth fwy penodol gan y cyflenwr.

Os nad oes gan leoliad y storfa gyfeiriad post (ee storfa mewn cae), cynhwyswch fap (1:25000) sy'n dangos ei lleoliad. Efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd am weld cynllun llawr yr ardal werthu os ydych yn bwriadu storio neu arddangos mwy na 12.5 ciolgram o dân gwyllt yno.

*Cyfnod dilysrwydd:* fel arfer, caiff cofrestriadau a thystysgrifau trwyddedu ar gyfer tân gwyllt a ffrwydron eraill nad ydynt yn gofyn am dystysgrif ffrwydron eu hadnewyddu'n flynyddol ar ddyddiad adnewyddu cyffredin. Gellir caniatáu ceisiadau cychwynnol am gyfnod o fwy na blwyddyn fel bod angen eu hadnewyddu ar y dyddiad adnewyddu cyffredin. Er enghraifft, gellir rhoi trwydded 15 mis i ymgeisydd sy'n gwneud cais ym mis Mehefin fel ei bod yn dod i ben ym mis Medi'r flwyddyn ganlynol.

**Nodiadau pwysig**

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rheoliadau ar gynhyrchu a storio ffrwydron, a'ch bod yn cydymffurfio â hwy.

Fel arfer, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn ymweld â'ch safle cyn rhoi cofrestriad. Gallai'r awdurdod wahardd storio ffrwydron ar y safle os yw'n credu nad yw'r safle'n ddiogel. Gall hefyd gymryd camau gorfodi os nad ydych yn storio'n ddiogel.

Os ydych yn bwriadu gwerthu tân gwyllt y tu allan i gyfnodau cyfyngedig penodol o'r flwyddyn, efallai y bydd angen trwydded arnoch o dan Reoliadau Tân Gwyllt 2004. Gall eich cyflenwr neu'ch awdurdod trwyddedu lleol eich cynghori ar hyn.